Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Diwygio Rheolau Sefydlog:** Gwneud offerynnau statudol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE

Medi 2023

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell diwygio Rheolau Sefydlog 21, 27, 30B a 30C yn sgil y datblygiadau a ganlyn:

- pasio Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023, yn benodol y darpariaethau y mae'n eu cynnwys sy'n ei gwneud yn ofynnol cael gweithdrefn sifftio ar gyfer offerynnau statudol;

- y pwerau sy'n ymwneud â gwneud offerynnau statudol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 yn dod i ben/cael eu diddymu.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y'u nodir yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

# Cynnwys

**1. Y cefndir ........ 3**

**2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes ........ 4**

Y weithdrefn sifftio ........ 4

Darpariaethau sifftio Deddf 2023 ........ 4

Rheolau Sefydlog 21 a 27 ........ 5

Newidiadau eraill ........ 6

Rheol Sefydlog 30B ........ 6

Rheol Sefydlog 30C ........ 7

**3. Penderfyniad ........ 9**

**Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 21, 27, 30B a 30C a nodiadau esboniadol ........ 10**

**Atodiad B: Rheolau Sefydlog 21, 27, 30B a 30C fel y'u diwygiwyd 24**

# 1. Y cefndir

**1.** Daeth Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("Deddf 2023") i rym ar 29 Mehefin 2023. Mae'n gwneud newidiadau sylweddol i'r corff domestig o gyfraith y cyfeirir ato fel “cyfraith yr UE a ddargedwir”. Crëwyd cyfraith yr UE a ddargedwir gan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 a ddaeth i rym ar ddiwedd cyfnod pontio’r DU ar ôl Brexit ddiwedd 2020.

**2.** Mae paragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn nodi gweithdrefn sifftio'r Senedd ar gyfer offerynnau statudol penodol a wneir o dan y Ddeddf.

**3.** Mae gweithdrefn sifftio Deddf 2023 yr un fath â'r weithdrefn sifftio a oedd yn gymwys o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (“Deddf 2018”) a [1] Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 (“Deddf 2020”)[2], fel y’u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 27. Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bumed Senedd oedd yn gyfrifol am y swyddogaethau hyn. Er bod y gweithdrefnau sifftio o dan Ddeddf 2023 a Deddf 2018 yr un fath, mae angen diwygio Rheolau Sefydlog y Senedd yn sgil pasio Deddf 2023 er mwyn adlewyrchu’r sail ddeddfwriaethol newydd.

**4.** At hynny, mae rhai darpariaethau yn Neddf 2018 a Deddf 2020 ynghylch gwneud offerynnau statudol naill ai wedi dod i ben neu wedi'u diddymu bellach, gan olygu bod angen diwygio Rheolau Sefydlog y Senedd.

**5.** Yn ei gyfarfod ar 12 Medi 2023, trafododd y Pwyllgor Busnes ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog i adlewyrchu effaith pasio Deddf 2023 a’r ffaith bod darpariaethau perthnasol yn Neddf 2018 a Deddf 2020 ynghylch gwneud offerynnau statudol wedi dod i ben/cael eu diddymu. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynglŷn â’i ddiwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog.

**6.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y diwygiadau arfaethedig ar 18 Medi 2023 ac ymatebodd i'r Pwyllgor Busnes i gadarnhau ei fod yn fodlon â'r cynigion.

---

[1] Gweler paragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.
[2] Gweler paragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020.

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes

## Y weithdrefn sifftio

### Darpariaethau sifftio Deddf 2023

**7.** Yn gyffredinol, bydd rheoliadau o dan Ddeddf 2023 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn sifftio os bydd Gweinidogion Cymru yn dewis defnyddio'r weithdrefn negyddol ar gyfer rheoliadau o dan yr adrannau a ganlyn:

- adran 11 (pwerau i ailddatgan cyfraith yr UE a ddargedwir);
- adran 12 (pwerau i ailddatgan cyfraith a gymathwyd neu atgynhyrchu hawliau, pwerau, rhwymedigaethau etc yr UE a ddargedwir sydd wedi machlud);
- adran 14 (pwerau i ddirymu neu ddisodli is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir (neu is-ddeddfwriaeth a gymathwyd) ar ôl diwedd 2023).

**8.** Dim ond ar gyfer y rheoliadau a ganlyn y mae gan Weinidogion Cymru y dewis hwn o weithdrefn:

- rheoliadau o dan adran 11 neu adran 12 nad ydynt yn diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol,
- unrhyw reoliadau o dan adran 14(1), a
- rheoliadau o dan adran 14(2) nad ydynt yn rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth neu greu trosedd.

**9.** Pan fo'r weithdrefn sifftio yn gymwys, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud yr offeryn sefydlog oni fodlonir Amod 1, a naill ai Amod 2 neu Amod 3:[3]

**Amod 1**[4] yw bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud fel a ganlyn:

- gwneud datganiad ysgrifenedig y dylai'r offeryn statudol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn eu barn hwy, a

[3] Atodlen 5, paragraff 9(2).
[4] Atodlen 5, paragraff 9(3).

- gosod gerbron y Senedd ddrafft o'r offeryn statudol a memorandwm sy'n nodi'r datganiad a'r rhesymau y mae Gweinidogion Cymru o'r farn honno.

**Amod 2**[5] yw bod un o bwyllgorau'r Senedd sy'n gyfrifol am wneud argymhelliad ynghylch y weithdrefn briodol ar gyfer yr offeryn wedi gwneud argymhelliad o'r fath.

Mae **Amod 3**[6] yn caniatáu i Weinidogion Cymru fwrw ymlaen i wneud yr offeryn statudol heb unrhyw argymhelliad gan y Pwyllgor pan fo cyfnod o 14 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r offeryn drafft gael ei osod.

**10.** Mae hyn yn golygu y bydd gan Bwyllgor y Senedd 14 diwrnod (gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y gosodir y drafft, a heb gynnwys unrhyw amser pan fo'r Senedd wedi ei diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i sifftio'r offeryn a gwneud argymhelliad ynghylch y weithdrefn briodol. Os na fydd y Pwyllgor yn gwneud ei argymhelliad o fewn y cyfnod hwnnw, gall Gweinidogion Cymru fwrw ymlaen i wneud yr offeryn statudol gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol.

**11.** Caiff Gweinidogion Cymru newid eu meddyliau yn ystod y broses sifftio, a dewis defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn lle hynny.[7]

**12.** Nid oes dim yn Neddf 2023 i atal Gweinidogion Cymru rhag penderfynu parhau i ddefnyddio'r weithdrefn negyddol er gwaethaf argymhelliad gan y Pwyllgor y byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol.

## Rheolau Sefydlog 21 a 27

**13.** O ystyried bod y camau gweithdrefnol ar gyfer y weithdrefn sifftio o dan Ddeddf 2023 yr un fath â'r rhai ar gyfer Deddf 2018 a Deddf 2020, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod y Senedd yn diwygio Rheolau Sefydlog 21 a 27 i ddileu cyfeiriadau at Ddeddf 2018 a Deddf 2020 a'u bod yn cynnwys cyfeiriadau at Ddeddf 2023 yn lle hynny. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu:

- y byddai'r weithdrefn sifftio yn aros yr un fath ar gyfer offerynnau statudol o dan Ddeddf 2023 â'r rhai blaenorol o dan Ddeddf 2018 a Deddf 2020;

[5] Atodlen 5, paragraff 9(4)
[6] Atodlen 5, paragraff 9(5)
[7] Atodlen 5, paragraff 9(7)

- y pwyllgor a fyddai'n gyfrifol am sifftio offerynnau statudol o dan Ddeddf 2023 fyddai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfansoddiad a Chyfiawnder, gan adlewyrchu'r cyfrifoldebau a oedd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn y Bumed Senedd.

**14.** Mae'r ddarpariaeth bresennol yn Rheol Sefydlog 27.9B yn ei gwneud yn ofynnol, os na fydd Gweinidogion Cymru yn cytuno ag argymhelliad y pwyllgor cyfrifol mai'r weithdrefn gadarnhaol sy'n briodol ar gyfer offeryn, iddynt esbonio pam nad ydynt yn derbyn hyn yn y Memorandwm Esboniadol perthnasol. Er nad yw hyn yn ofynnol o dan y weithdrefn sifftio a nodir yn y ddeddfwriaeth (nid o dan yr hen weithdrefnau yn Neddf 2018/Deddf 2020 nac o dan y weithdrefn yn Neddf 2023), cafodd ei chynnwys gan y Senedd yn Rheol Sefydlog 27.9B yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bumed Senedd. Y nod wrth wneud hynny oedd sicrhau y gallai'r Senedd graffu ar unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru i fynd yn groes i argymhelliad pwyllgor.[8]

**15.** Mae'r Pwyllgor Busnes o'r farn y dylid cadw'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 27.9B er mwyn sicrhau bod dull y Senedd o ymdrin â'r weithdrefn sifftio o dan Ddeddf 2023 yn adlewyrchu yr hyn a oedd ar waith o dan Ddeddf 2018 a Deddf 2020.

## Newidiadau eraill

### Rheol Sefydlog 30B

**16.** Mae Rheol Sefydlog 30B yn ymwneud ag offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion y DU (mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir) sy'n cyfyngu dros dro ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.[9] Ni wnaed unrhyw reoliadau erioed gan ddefnyddio'r pwerau hyn, ac mae'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol bellach wedi'u diddymu.[10]

**17.** Mae Rheol Sefydlog 30B hefyd yn cyfeirio at ddatganiadau ysgrifenedig yr oedd angen eu gosod mewn perthynas â'r offerynnau statudol hyn,[11] ac

---

[8] Gweler y Pwyllgor Busnes, Diwygio Rheolau Sefydlog: Gweithredu Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, Medi 2018.
[9] Rheoliadau a wneir gan un o Weinidogion y Goron o dan adrannau 109A neu 80(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
[10] Diddymwyd y darpariaethau gan Reoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Diddymu Cyfyngiadau'r UE mewn Deddfwriaeth Ddatganoledig, etc) Rheoliadau 2022 (Offeryn Statudol 2022/357).
[11] Adran 157ZA(2)(b)(ii) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

adroddiadau a oedd yn ofynnol mewn cysylltiad â chyfyngiadau cyfraith yr UE a ddargedwir,[12] y mae'r ddau beth wedi eu diddymu erbyn hyn.[13]

**18.** Gan fod yr holl ddarpariaethau deddfwriaethol perthnasol y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 30B wedi'u diddymu, nid oes angen y Rheol Sefydlog mwyach. Felly, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig dileu Rheol Sefydlog 30B yn ei chyfanrwydd.

## Rheol Sefydlog 30C

**19.** Mae Rheol Sefydlog 30C yn ymwneud â rheoliadau a wneir gan un o Weinidogion y DU sy'n gweithredu ar ei ben ei hun o dan adran 8 neu 23 o Atodlen 4 i Ddeddf 2018:

- Mae Adran 8 (Ymdrin â diffygion sy'n deillio o ymadael) yn parhau i fod mewn grym yn dechnegol, ond daeth y pŵer i wneud rheoliadau i ben ar 31 Rhagfyr 2022 (dwy flynedd ar ôl Diwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu)[14] felly mae'r ddarpariaeth i bob pwrpas yn ddiangen.

- Mae adran 23 (Darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol) yn parhau i fod mewn grym. Bydd y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol yn dod i ben 10 mlynedd ar ôl Diwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu (31 Rhagfyr 2030). Nid oes dyddiad wedi'i bennu o ran pryd y daw'r pŵer i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed i ben.

- Mae Atodlen 4 (Pwerau mewn cysylltiad â ffioedd a thaliadau) yn parhau i fod mewn grym. Daeth rhai o'r pwerau yn Atodlen 4 i ben ar 31 Rhagfyr 2022 (ddwy flynedd ar ôl Diwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu), ond mae pwerau eraill yn parhau i fod ar gael i'w harfer.

**20.** Mae'r tebygolrwydd, yn ymarferol, y bydd Gweinidogion y DU yn parhau i arfer y pwerau sy'n weddill i wneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru a fyddai'n ymwneud â Rheol Sefydlog 30C, yn parhau i fod yn aneglur. Fodd bynnag, gan

---

[12] Paragraff 4(4) o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.
[13] Diddymwyd y darpariaethau gan Reoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Diddymu Cyfyngiadau'r UE mewn Deddfwriaeth Ddatganoledig, etc) Rheoliadau 2022 (Offeryn Statudol 2022/357).
[14] Diwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu oedd 31 Rhagfyr 2020.

fod hynny'n bosibil o dan y ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar hyn o bryd, efallai y bydd angen cadw Rheol Sefydlog 30C.

**21.** Gan fod rhai o'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 30C yn parhau i fod yn weithredol, cred y Pwyllgor Busnes fod angen i'r Rheol Sefydlog barhau. Fodd bynnag, mae'n cynnig y dylid diwygio Rheol Sefydlog 30C i ddileu'r cyfeiriad at y pwerau anweithredol (adran 8 o Ddeddf 2018).

# 3. Penderfyniad

**22.** Ar 19 Medi 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 21, 27, 30B a 30C a nodiadau esboniadol

| **RHEOL SEFYDLOG 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** | | |
|---|---|---|
| | Y Pwyllgor neu Bwyllgorau | Cadw'r is-bennawd |
| 21.1 | Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 21 yn cael ei aseinio i bwyllgor neu bwyllgorau (y cyfeirir ato neu atynt yn Rheol Sefydlog 21 fel "pwyllgor cyfrifol"). | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |
| | Swyddogaethau | Cadw'r is-bennawd |
| 21.2 | Rhaid i bwyllgor cyfrifol ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Senedd a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Senedd roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:<br>(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires;<br>(ii) ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano; | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |

| **RHEOL SEFYDLOG 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** | | |
|---|---|---|
| | (iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;<br>(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;<br>(v) bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.<br>(vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;<br>(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;<br>(viii) bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;<br>(ix) nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;<br>(x) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Senedd; neu<br>(xi) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd). | |

| **RHEOL SEFYDLOG 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** | | |
|---|---|---|
| 21.3 | Caiff pwyllgor cyfrifol ystyried a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Senedd roi sylw arbennig i unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Senedd ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:<br>(i) ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;<br>(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd<br>(iii) ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i'r deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano gael ei basio neu ei wneud ei hun;<br>(iv) *[Dilëwyd y Rheol Sefydlog drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mawrth 2021]*<br>(v) nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |
| 21.3A | Nid yw Rheolau Sefydlog 21.2 na 21.3 yn gymwys i unrhyw offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd y mae paragraff ~~4 o~~ | Diwygio'r Rheol Sefydlog |

| **RHEOL SEFYDLOG 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** | | |
|---|---|---|
| | ~~Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 neu baragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020~~ <u>9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023</u> yn gymwys iddo. | Mae'r Rheol Sefydlog yn datgymhwyso'r gofynion uchod ar gyfer offerynnau statudol drafft sy'n dod i'r pwyllgor i gael eu sifftio, gan na fydd angen ystyried y materion hynny ar y pwynt hwnnw.<br>Os bydd yr offerynnau statudol yn dychwelyd at y pwyllgor ar ôl sifftio, fel rhan o'r broses arferol o graffu ar offerynnau statudol, dyna pryd y byddai'r pwyllgor yn ystyried y materion hyn.<br>Gan fod y gweithdrefnau sifftio yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 wedi dod i ben, gallant gael eu tynnu o'r Rheol Sefydlog. Gan fod Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn cynnwys gweithdrefn sifftio sydd yn union yr un fath, mewnosodir cyfeiriad at Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir |

| **RHEOL SEFYDLOG 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** | | |
|---|---|---|
| | | (Dirymu a Diwygio) 2023 yn lle hynny. |
| 21.3B | Rhaid i bwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar y weithdrefn briodol i'w chymhwyso i unrhyw offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd y mae paragraff ~~4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 neu baragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020~~9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn gymwys iddo. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog ddiwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor cyfrifol gynnal gwaith sifftio ar gyfer offerynnau statudol penodol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.<br><br>Gan fod y gweithdrefnau sifftio yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 wedi dod i ben, gellir eu dileu o'r Rheol Sefydlog a chyfeirio at Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn eu lle. |
| 21.3C | Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B gyflwyno adroddiad ar y weithdrefn briodol gan ddefnyddio'r meini prawf a ganlyn: | Cadw'r Rheol Sefydlog<br><br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |

| **RHEOL SEFYDLOG 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** | | |
|---|---|---|
| | (i) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch pam y mae'r llywodraeth o'r farn y dylai'r weithdrefn penderfyniad negyddol fod yn gymwys;<br>(ii) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y rheoliadau;<br>(iii) a fu ymgynghoriad digonol ar y rheoliadau;<br>(iv) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch effaith bosibl y rheoliadau ar gydraddoldeb a hawliau dynol;<br>(v) a yw'r rheoliadau'n codi materion o bwys cyhoeddus, gwleidyddol neu gyfreithiol; a<br>(vi) unrhyw fater arall sy'n briodol ym marn y pwyllgor. | |
| 21.4 | Rhaid i bwyllgor cyfrifol gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |
| 21.4A | Os bydd y deddfiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft gael ei osod gerbron y Senedd yn pennu amserlen mewn perthynas ag ystyriaeth y Senedd o'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft, yna:<br>(i) ni fydd y terfyn amser yn Rheol Sefydlog 21.4 yn gymwys; | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |

| **RHEOL SEFYDLOG 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** | | |
|---|---|---|
| | (ii) caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor cyfrifol neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno. | |
| 21.4B | Rhaid i bwyllgor cyfrifol gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3B mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol drafft heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod ar ôl i'r offeryn drafft gael ei osod. Nid yw Rheol Sefydlog 21.4A(ii) yn gymwys i'r offerynnau statudol drafft hynny. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r Rheol Sefydlog hon yn adlewyrchu gofynion Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023, sy'n nodi bod gan y pwyllgor 14 diwrnod i gyflwyno adroddiad ar offerynnau statudol drafft sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio. |
| 21.5 | Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 21.4 neu 21.4B, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r Rheol Sefydlog hon yn sicrhau nad yw'r cyfnod o 14 diwrnod y darperir ar ei gyfer yn 21.4B yn cynnwys cyfnodau o doriad sy'n hwy na 4 diwrnod na chyfnodau pan fydd y Senedd wedi'i diddymu. Mae hyn yn gyson â darpariaethau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. |

**RHEOL SEFYDLOG 27 – Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy'n Ddarostyngedig i Weithdrefn Arbennig y Senedd)**

| | Memoranda Esboniadol | Cadw'r is-bennawd |
|---|---|---|
| 27.1 | Rhaid cael Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd a rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys unrhyw Asesiad Effaith Reoliadol a baratoir mewn perthynas â'r offeryn. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |
| 27.1A | Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd y mae paragraff ~~4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)~~9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn gymwys iddo gynnwys y datganiad a'r rhesymeg sy'n ofynnol gan baragraff ~~4(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018~~9(3) o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu'r gofyniad yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 i Weinidogion Cymru egluro eu rhesymau dros nodi y dylai offeryn statudol drafft fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. |
| ~~27.1AA~~ | ~~Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd y mae paragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 yn gymwys iddo gynnwys y datganiad a'r rhesymeg sy'n ofynnol gan baragraff 9(3) o Atodlen 5 i Ddeddf 2020.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r darpariaethau ym mharagraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 wedi dod i ben ac felly nid oes angen y Rheol Sefydlog hon mwyach. |

**RHEOL SEFYDLOG 27 – Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy'n Ddarostyngedig i Weithdrefn Arbennig y Senedd)**

| | | |
|---|---|---|
| 27.1B | Yn achos unrhyw Orchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud o dan adran 116C o'r Ddeddf, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys y wybodaeth a ganlyn:<br>(i) yr effaith y byddai'r Gorchymyn drafft yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;<br>(ii) esboniad ynghylch pam mae'r Gorchymyn drafft yn briodol;<br>(iii) amcanion polisi datganoli'r dreth; a<br>(iv) manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd a chrynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |
| | Offerynnau statudol drafft y mae paragraff ~~4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 neu baragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 yn gymwys iddynt~~9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn gymwys iddynt | Diwygio'r is-bennawd<br>Gan fod y gweithdrefnau ar gyfer gosod offerynnau statudol o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 wedi dod i ben, gellir dileu'r cyfeiriadau atynt yn y Rheol Sefydlog a chyfeirio at Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn lle hynny. |
| 27.9A | Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod gerbron y Senedd unrhyw offeryn statudol drafft y mae paragraff ~~4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) neu baragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf~~ | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Gan fod y gweithdrefnau ar gyfer gosod offerynnau statudol o dan |

**RHEOL SEFYDLOG 27 – Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy’n Ddarostyngedig i Weithdrefn Arbennig y Senedd)**

| | | |
|---|---|---|
| | ~~yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020~~ 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn gymwys iddo. | Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020 wedi dod i ben, gellir eu dileu o’r Rheol Sefydlog a chyfeirio at Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn lle hynny. |
| 27.9B | Os:<br>(i) cyflwynodd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 21.4B gydag argymhelliad mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer offeryn; a<br>(ii) bod Gweinidogion Cymru o'r farn serch hynny mai'r weithdrefn briodol ar gyfer yr offeryn yn weithdrefn penderfyniad negyddol;<br>rhaid i’r Memorandwm Esboniadol a osodir yn unol â Rheol Sefydlog 27.1 esbonio pam nad yw Gweinidogion Cymru yn derbyn argymhelliad y pwyllgor. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Cynigir cadw'r drefn bresennol ar gyfer amgylchiadau pan na fydd un o Weinidogion Cymru yn cytuno ag argymhelliad y pwyllgor cyfrifol. |

| **RHEOL SEFYDLOG 30B – Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU o dan y Ddeddf sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru dros dro** | | |
|---|---|---|
| | ~~Rheoliadau a wneir gan un o Weinidogion y Goron o dan adrannau 109A ac 80(8) o'r Ddeddf~~ | Dileu'r is-bennawd |
| ~~30B.1.~~ | ~~Yn Rheol Sefydlog 30B, ystyr "rheoliadau drafft perthnasol" yw rheoliadau drafft y mae un o Weinidogion y Goron yn cynnig eu gosod gerbron Senedd y DU, yn unol ag adran 109A neu 80(8) o'r Ddeddf.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog |
| ~~30B.2.~~ | ~~Rhaid i Weinidogion Cymru osod rheoliadau drafft perthnasol gerbron y Senedd heb fod yn hwyrach nag un diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael copi ohonynt yn unol ag adran 109A(6)(a) neu 80(8F)(a) o'r Ddeddf.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog |
| | ~~Memorandwm Penderfyniad Cydsynio~~ | Dileu'r is-bennawd |
| ~~30B.3.~~ | ~~Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod memorandwm ("memorandwm penderfyniad cydsynio") mewn perthynas ag unrhyw reoliadau drafft perthnasol heb fod yn hwyrach na saith diwrnod ar ôl i gopi o'r rheoliadau drafft perthnasol gael ei ddarparu i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 109A(6)(a) neu 80(8F)(a) o'r Ddeddf.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog |
| ~~30B.4.~~ | ~~Rhaid i femorandwm penderfyniad cydsynio:~~<br>~~(i) crynhoi effaith y rheoliadau drafft perthnasol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu swyddogaethau Gweinidogion Cymru;~~<br>~~(ii) gwneud argymhellion o ran a ddylai'r rheoliadau drafft perthnasol gael eu cymeradwyo wedi hynny gan Weinidogion y DU;~~<br>~~(iii) esbonio'r rhesymau dros yr argymhelliad a wnaed yn (ii).~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog |

| **RHEOL SEFYDLOG 30B – Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU o dan y Ddeddf sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru dros dro** | | |
|---|---|---|
| 30B.5. | Rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio unrhyw femorandwm penderfyniad cydsynio at bwyllgor neu bwyllgorau i'w ystyried. | Dileu'r Rheol Sefydlog |
| | Cynnig Penderfyniad Cydsynio | Dileu'r is-bennawd |
| 30B.6. | Ar ôl gosod memorandwm penderfyniad cydsynio, a heb fod yn hwyrach na 33 diwrnod ar ôl i Weinidogion Cymru gael copi o'r rheoliadau drafft perthnasol yn unol ag adran 109A(6)(a) neu 80(8F)(a) o'r Ddeddf, rhaid i aelod o'r llywodraeth osod cynnig ("cynnig penderfyniad cydsynio") ar gyfer penderfyniad naill ai'n rhoi neu'n gwrthod cydsyniad y Senedd i osod y rheoliadau drafft perthnasol gerbron Senedd y DU. | Dileu'r Rheol Sefydlog |
| 30B.7. | Rhaid i'r Senedd ystyried cynnig penderfyniad cydsynio sydd wedi'i gyflwyno | Dileu'r Rheol Sefydlog |
| 30B.8. | Ni chaniateir i gynnig penderfyniad cydsynio gael ei drafod nes y bydd naill ai:<br>(i) y pwyllgor neu'r pwyllgorau wedi cyflwyno adroddiad ar y memorandwm penderfyniad cydsynio cysylltiedig; neu<br>(ii) 33 diwrnod wedi mynd heibio ers i Weinidogion Cymru gael copi o'r rheoliadau drafft perthnasol yn unol ag adran 109A(6)(a) neu 80(8F)(a) o'r Ddeddf | Dileu'r Rheol Sefydlog |
| | Cyfrifo Dyddiau | Dileu'r is-bennawd |
| 30B.9. | Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 30A, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser | Dileu'r Rheol Sefydlog |

| **RHEOL SEFYDLOG 30B – Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU o dan y Ddeddf sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru dros dro** | | |
|---|---|---|
| | ~~pryd y bydd y Senedd wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.~~ | |
| | ~~Datganiadau ysgrifenedig~~ | Dileu'r is-bennawd |
| ~~30B.10.~~ | ~~Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod gerbron y Cynullaid unrhyw ddatganiad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru i Weinidog y Goron fel a grybwyllwyd yn adran 157ZA(2)(b)(ii) o'r Ddeddf, a hynny heb fod yn hwyrach nag un diwrnod gwaith fel rheol ar ôl darparu'r datganiad.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog |
| | ~~Adroddiadau mewn Cysylltiad â Chyfyngiadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir~~ | Dileu'r is-bennawd |
| ~~30B.11.~~ | ~~Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod gerbron y Senedd gopi o unrhyw adroddiad a ddarperir i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 4(4) o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 heb fod yn hwyrach nag un diwrnod gwaith ar ôl i'r adroddiad ddod i law.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog |
| ~~30B.12.~~ | ~~Mewn perthynas ag unrhyw reoliadau drafft a fyddai, os cânt eu cymeradwyo gan Senedd y DU, yn dirymu cyfyngiadau cyfraith yr UE a ddargedwir a osodir ar y Senedd neu Weinidogion Cymru o dan adran 109A neu 80(8) o'r Ddeddf, rhaid i aelod o'r llywodraeth osod gerbron y Senedd ddatganiad yn esbonio'r effaith y byddai'r rheoliadau drafft yn ei chael ar gymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, heb fod yn hwyrach na saith diwrnod ar ôl i'r rheoliadau drafft gael eu gosod gerbron Senedd y DU.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog |

| **RHEOL SEFYDLOG 30C - Hysbysu mewn perthynas ag Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 na chânt eu gosod gerbron y Senedd** | | |
|---|---|---|
| | Offerynnau Statudol y mae angen hysbysu'r Senedd yn eu cylch | Cadw'r is-bennawd |
| 30C.1. | Yn Rheol Sefydlog 30C, ystyr "offeryn statudol perthnasol" yw offeryn statudol, neu offeryn statudol drafft, a wnaed, neu sydd i'w wneud, gan Weinidog y DU sy'n gweithredu ar ei ben ei hun o dan ~~adrannau 8, neu~~adran 23 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 neu Atodlen 4 i'r Ddeddf honno, sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Daeth y pŵer i wneud rheoliadau o dan Adran 8 (Ymdrin â diffygion yn sgil yr ymadawiad) i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Felly, cynigir dileu'r cyfeiriad at Adran 8. |
| | Datganiadau Ysgrifenedig mewn perthynas ag Offerynnau Statudol Perthnasol | Cadw'r is-bennawd |
| 30C.2. | Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod datganiad ysgrifenedig yn rhoi hysbysiad o unrhyw offeryn statudol perthnasol, fel arfer o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl ei osod gerbron Senedd y DU. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |
| 30C.3. | Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig:<br>(i) crynhoi diben yr Offeryn Statudol;<br>(ii) nodi unrhyw effaith y caiff yr offeryn statudol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a / neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru; a<br>(iii) pan fo Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Weinidogion y DU wneud yr offerynnau statudol perthnasol, esbonio'r rhesymau pam y rhoddwyd cydsyniad. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Caiff y Rheol Sefydlog hon ei chynnwys er gwybodaeth. |

# Atodiad B: Rheolau Sefydlog 21, 27, 30B a 30C fel y'u diwygiwyd

**RHEOL SEFYDLOG 21 – Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

Y Pwyllgor neu Bwyllgorau

21.1 Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau a ragnodir yn Rheol Sefydlog 21 yn cael ei aseinio i bwyllgor neu bwyllgorau (y cyfeirir ato neu atynt yn Rheol Sefydlog 21 fel "pwyllgor cyfrifol").

Swyddogaethau

21.2 Rhaid i bwyllgor cyfrifol ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Senedd a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Senedd roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw intra vires;

(ii) yr ymddengys ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud oddi tano;

(iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;

(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;

(v) bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;

(vi) yr ymddengys bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;

(vii) yr ymddengys bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a’r testun Saesneg;

(viii) y defnyddir iaith ryw-benodol;

(ix) nad yw wedi’i wneud neu i’w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;

(x) yr ymddengys bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Senedd; neu

(xi) yr ymddengys bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (fel y’i haddaswyd).

21.3 Caiff pwyllgor cyfrifol ystyried a chyflwyno adroddiad ar a ddylai’r Senedd roi sylw arbennig i unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Senedd ar unrhyw un o’r seiliau canlynol:

(i) ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu’n cynnwys darpariaethau sy’n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i’r Gronfa honno neu i unrhyw ran o’r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i’w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o’r fath;

(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd

(iii) ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i’r deddfiad y mae wedi’i wneud neu y mae i’w wneud oddi tano gael ei basio neu ei wneud ei hun;

(iv) [Dilëwyd y Rheol Sefydlog drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mawrth 2021];

(v) nad yw’n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith.

21.3A Nid yw Rheolau Sefydlog 21.2 na 21.3 yn gymwys i unrhyw offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd y mae paragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn gymwys iddo.

21.3B Rhaid i bwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar y weithdrefn briodol i'w chymhwyso i unrhyw offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd y mae paragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn gymwys iddo.

21.3C Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B gyflwyno adroddiad ar y weithdrefn briodol gan ddefnyddio'r meini prawf a ganlyn:

(i) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch pam y mae'r llywodraeth o'r farn y dylai'r weithdrefn penderfyniad negyddol fod yn gymwys;

(ii) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y rheoliadau;

(iii) a fu ymgynghoriad digonol ar y rheoliadau;

(iv) a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch effaith bosibl y rheoliadau ar gydraddoldeb a hawliau dynol;

(v) a yw'r rheoliadau'n codi materion o bwys cyhoeddus, gwleidyddol neu gyfreithiol; a

(vi) unrhyw fater arall sy'n briodol ym marn y pwyllgor.

21.4 Rhaid i bwyllgor cyfrifol gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.

21.4A Os bydd y deddfiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft gael ei osod gerbron y Senedd yn pennu amserlen mewn perthynas ag ystyriaeth y Senedd o'r offeryn statudol neu'r offeryn statudol drafft, yna:

(i) ni fydd y terfyn amser yn Rheol Sefydlog 21.4 yn gymwys;

(ii) caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor cyfrifol neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno.

21.4B Rhaid i bwyllgor cyfrifol gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3B mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol drafft heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod ar ôl i'r offeryn drafft gael ei osod. Nid yw Rheol Sefydlog 21.4A(ii) yn gymwys i'r offerynnau statudol drafft hynny.

21.5 Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 21.4 neu 21.4B, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

## RHEOL SEFYDLOG 27 – Is-ddeddfwriaeth (ac eithrio Is-ddeddfwriaeth sy'n Ddarostyngedig i Weithdrefn Arbennig y Senedd)

### Memoranda Esboniadol

27.1 Rhaid cael Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd a rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys unrhyw Asesiad Effaith Reoliadol a baratoir mewn perthynas â'r offeryn.

27.1A Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag offeryn statudol drafft a osodir gerbron y Senedd y mae paragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn gymwys iddo gynnwys y datganiad a'r rhesymeg sy'n ofynnol gan baragraff 9(3) o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

27.1AA *[Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Medi 2023]*

27.1B Yn achos unrhyw Orchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud o dan adran 116C o'r Ddeddf, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

(i) yr effaith y byddai'r Gorchymyn drafft yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;

(ii) esboniad ynghylch pam mae'r Gorchymyn drafft yn briodol;

(iii) amcanion polisi datganoli'r dreth; a

(iv) manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd a chrynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.

### Offerynnau statudol drafft y mae paragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn gymwys iddynt

27.9A Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod gerbron y Senedd unrhyw offeryn statudol drafft y mae paragraff 9 o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn gymwys iddo.

27.9B Os:

(i) cyflwynodd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21.3B adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 21.4B gydag argymhelliad mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer offeryn; a

(ii) bod Gweinidogion Cymru o'r farn serch hynny mai'r weithdrefn briodol ar gyfer yr offeryn yw'r weithdrefn penderfyniad negyddol;

rhaid i'r Memorandwm Esboniadol a osodir yn unol â Rheol Sefydlog 27.1Error! Reference source not found. esbonio pam nad yw Gweinidogion Cymru yn derbyn argymhelliad y pwyllgor.

**30B. RHEOL SEFYDLOG 30B – Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU o dan y Ddeddf sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru dros dro**

*[Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Medi 2023]*

**30C. RHEOL SEFYDLOG 30C - Hysbysu mewn perthynas ag Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 na chânt eu gosod gerbron y Senedd**

Offerynnau Statudol y mae angen hysbysu'r Senedd yn eu cylch

30C.1. Yn Rheol Sefydlog 30C, ystyr "offeryn statudol perthnasol" yw offeryn statudol, neu offeryn statudol drafft, a wnaed, neu sydd i'w wneud, gan Weinidog y DU sy'n gweithredu ar ei ben ei hun o dan adran 23 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 neu Atodlen 4 i'r Ddeddf honno, sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Datganiadau Ysgrifenedig mewn perthynas ag Offerynnau Statudol Perthnasol

30C.2. Rhaid i aelod o'r llywodraeth osod datganiad ysgrifenedig yn rhoi hysbysiad o unrhyw offeryn statudol perthnasol, fel arfer o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl ei osod gerbron Senedd y DU.

30C.3. Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig:

(i) crynhoi diben yr Offeryn Statudol;

(ii) nodi unrhyw effaith y caiff yr offeryn statudol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a / neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru; a

(iii) pan fo Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Weinidogion y DU wneud yr offerynnau statudol perthnasol, esbonio'r rhesymau pam y rhoddwyd cydsyniad.